Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed o Ionawr 2024

Cafwyd ymddiheuriadau gan Maria Roberts, Einion Edwards, Ffuon Williams a Guto Jones.
Yn bresennol oedd John Jones, Menai Hughes, Llio Morris, Dyfan Jones, Prys Ellis fel Cadeirydd a Cyng Gwennol Ellis.
Datgan diddordeb - NEB
Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.
Gohebiaeth
[1] UKSPF Conwy Cafwyd dau lythyr yn nodi bod ni ddim wedi bod yn llwyddianus gyda cais i gael arian i waith llwybr y fynwent a llall yn dweud ein bod wedi bod yn llwyddianus gyda cais i wneud astudiaethau dichnoldeb. Y swm a dyfarnwyd yw £4,471.87. Pasiwyd ein bod yn cychwyn ar y broses yma drwy wahodd Marc Evans Roberts atom i drafod beth yw wneud nesf. Penodwyd Marc Evans Roberts i wneud y gwaith yma ar ein rhan yn unol a grant a gafwyd. Pasiwyd ein bod yn cyfarfod a Marc yn mis Chwefror, y clerc i wneud ymoliadau iddo fynnych ar cynghorwyr.
[1.1] Dwr Cymru anfoneb £3.89 wedi ei dalu drwy DD
[1.2] J C Evans anfoneb am dori gwrych yn y fynwent Newydd £144.00 pasiwyd iw dalu.
[1.3] Laptop ir Clerc mae'r clerc wedi derbyn laptop Newydd ar gost yw £200 yn rhannog gyda Cyngor Bro Llanfihangel wedi ei dalu.
[1.4] Cyngor B Sirol Conwy adloygu gwasanaethau cafwyd llythyr yn cynig inni gymeryd y cyfleusterau cyhoeddus drosodd iw rhedeg ond dywedwyd bod y toiledau ar gau ar hyn o bryd ac bod am holi beth ydi'r diweddaraf yn gyntaf.
[1.5] Guthrie Jones and Jones cafwyd llythyr yn nodi bod gweithredoedd dal yn Abertawe yn aros iw cofrestru.
[1.6] Cygnor B Sirol Conwy trafodwyd y cynllun gwariant am y flwyddyn sydd i ddod ac daethom i gytuno bod angen codi y precept i £10,000.00.
[1.7] Urdd Gobaith Cymru cafwyd llythyr or swyddfa yn Nhimbych yn gofyn am gyfraniad ir Urdd yn Sir Conwy pasiwyd i roi £100.00.
[1.8] Eisteddfod yr urdd Malwlydn 2024 cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael.
[1.9] Canolfan gynnes cafwyd llythyr gan Dr Norton a Gwennol yn diolch am gytuno i ariannu y deunyddiau fel bod angen ir ganolfan glyd yn y Llew Gwyn yn ystod y gaeaf.
[2] Scottish power anfoneb yn cadarnhau ein bod mewn credid o £220.89.
[2.1] RWE llythyr yn nodi am eu arddangosfa cyhoeddus yn Nghanofan Cerrig y Drudion ar nos Wener 19fed o Ionawr rhwng 3.30 – 7.30.
[2.2] Mr I N Ferguson anfoneb am y domain name a hostio y wefan am flwyddyn £76.79 pasiwyd iw dalu.
[2.3] Archwilio Cymru cafwyd dwy anfoeb un am y flwyddyn 21/22 £1380.00 archwiliad llawn a 22/23 sef £200 pasiwyd i dalu y ddwy anfoneb,
[2.4] Cyfeillion Glasfryn cafwyd dwy amfoneb am blannu blodau yn mhentref Glasfryn £19.96 a Pasiwyd iw dalu.
[2.5] Ambiwlans Awyr Cymru cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd i gyfrannu £200.00
[2.6] Mynegodd y cadeirydd bod y goeden dolig yn mhentref Glasfryn a Cherrig y Drudion yn werth iw gweld a diolch ir rhai a fuodd yn gyfrifol am drefnnu.
[2.7] Trydan ir goeden dolig yn Nherrig y Drudion y clerc i gysylltu ar Eglwys ar Clwb snwcer i ofyn beth yw y gost.
[2.8] Daeth sylw i law am gyflwr y palmant lle mae'r goeden dolig yn cael ei rhoi mae'r safle yn anwastad ac angen ychydig o sylw iw wneud yn saff. Mynegodd John Jones bod ganddo gyfar

‘manhole’ y buasem yn ei gael i roi yn y safle dan sylw, pasiwyd eu bod yn gofyn i Owain Humphreys ymgmeryd ar gwaith gan ei fod yn un or criw tan sydd yn gosod y goeden yn ei lle bob blwyddyn.
[2.9] Bws ysgol cafwyd ardeall bod y bws ysgol yn trafeilio i fynnu ffordd Tan LLan or A5 y clerc i gysylltu ar cwmni bwsiau.
[3.] Adroddiad Cyngh Gwennol Ellis Dywedodd bod yr ffordd allt y Crown y nagor ddydd Gwener ar ol bod ar gau i wneud gwaith ar yr allt ers peth amser.
Mae peipen wedi ei gosod yn ngwaelod allt yr Alwen fydd yn datrus y broblem llifogydd gobeithio.
Hwb Uwchaled yn aros ir les Newydd gyrraedd er mwyn symud ymlaen.
Dywedodd ei bod wedi siarad a chwmni sydd yn gweithio yn yr Alwen gyda trafnidiaeth trwm yn gyrru drwy’r pentref.
[3.1] Giat yn y parc chwarae dywedwyd bod y giat sydd yn arwain ir A5 yn cael ei gadael heb ei chau ac felly yn berygl i blant ddianc pasiwyd ein bod yn gosod clo ar y giat er mwyn diogelwch.
[3.2] Cyngor Sir Conwy dywedwyd bod arwydd ‘No through Road’ wedi disgyn ar ffordd Tan Lan clerc i gysylltu ar Sir.